YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XLVIII. MEDI, 1948. RHIF 9.

Eisteddfod Genedlaethol 1948.

Gan y Cyn-Brifathro J. ISLAN JONES, M.A.

I BOB Cymro a gymer ddiddordeb yn niwylliant ei gyd-wladwyr, sefydliad pwysig yw'r Eisteddfod Genedlaethol.

Yn ystod blynyddoedd y rhyfel, bu'n dihoeni megis cysgod o'r hyn a fu ; ond ym Mhenybont-ar-Ogwr, eleni, yr oedd wedi adfer ei nerth cyntefig, ac yn wir wedi tyfu. Ni all neb amau nad yw yn sefydliad poblogaidd, ond mae ei chynnydd yn dwyn problemau newydd i'w rheolwyr.

Un o'r problemau yw paratoi digon o eisteddleoedd i'r ymwelwyr. Eleni, yr oedd yr awdurdodau wedi paratoi pabell i dderbyn deuddeng mil o ymwelwyr, ond bu yno dros chwe mil ar hugain ar y maes yr un pryd, ac felly yr oedd yn rhaid i fwy na'u hanner aros y tu allan i'r pafiliwn. Mae'n wir bod trefniadau i ddarlledu o'r llwyfan i'r maes, ond nid oedd sedd i un o bob ugain ; ac am fod y tywydd yn llaith, peth peryglus i iechyd fyddai eistedd ar y borfa, ac ni fyddai lle i bawb gysgodi rhag glaw yn yr amrywiol bebyll bychain a frithai gae'r Eisteddfod.

Ar y ffordd i'r ŵyl oeddwn i, ddydd Llun, pan bistyllodd y glaw mor arswydus, a'r bws hyd yr echelau mewn dwfr pan aem drwy Gastell Nedd. Synnais, fore dydd Mawrth, wrth weld cae'r Eisteddfod mor sych a glân. Bu'r tywydd yn weddol o ffafriol o ddydd Mawrth hyd ddydd Iau, a dydd Mercher yn ddydd o haf gwresog.

Rhaid rhoi gair o ganmoliaeth i'r babell, a'i hochrau a'i nenfwd o haearn rhychog a'i llawr o goed wedi ei godi uwch y ddaear ; yr oedd yn gysurus ddigon. Dywedir iddi gosti un fil ar hugain o bunnoedd. Faint tybed fyddai cost pafiliwn o'r un batrwm i gynnwys chwe mil ar hugain o bobl ?

Nid yw'r broblem o wneuthur gwaith y llwyfan yn hyglyw ym mhob cwr o'r babell wedi ei meistroli chwaith. Dydd Mawrth a dydd Iau yr oeddwn i yn eistedd yn y seddau blaenaf yn wynebu'r llwyfan, ond yn yr adain chwith ; ac ni ddëellais i mo hanner

beirniadaethau Crwys a'r Dr. Parry Williams. Nid ar fy nghlyw i yr oedd y bai yn gyfangwbl, canys pan ddaeth Elfed i'r llwyfan i groesawu ymwelwyr o wledydd tramor, yr oeddwn yn deall pob gair a lefarodd heb yr anhawster lleiaf. Gwych o beth fyddai dysgu siaradwyr y llwyfan i barablu'n glir. Nid peth annoeth fyddai i Bwyllgor yr Eisteddfod gyflogi Elfed at y gwaith.

Hefyd, ddydd Iau, ni welais i fawr o'r cadeirio, am fod telynores ar y llwyfan wedi ei phlannu ei hyn a'i thelyn rhyngof a'r bardd a'i gadair. Gellid trefnu'r seremoni yn well i foddio'r gweledyddion, heb beri anhwylustod i bobl y llwyfan.

Adran ddiddorol iawn o'r eisteddfod oedd yr Arddangosfa Celf a Chrefftwaith yn Ysgol Celf y dref. Gellid treulio diwrnod cyfan llawn o fwynhad a diddordeb yno.

Diddorol iawn hefyd oedd pabell y Lofa, yn dangos y modd y daeth glo i grombil y ddaear, a'r ffordd fodern o'i drin at wasanaeth dyn.

Yr oeddwn wedi bwriadu mynd i weld rhai o'r dramâu, ond yr oedd Maesteg, lle y cynhyrchid hwynt, yn rhy anghyfleus o Langeinor, lle'r arhoswn i. Methodd llawer o'r eisteddfodwyr a mynd i'r dramâu oherwydd ansicrwydd trafaelu. Clywais mai teneu oedd y cynulliadau ym Maesteg, oherwydd yr anghyfleustra a nodwyd.

Yn wir, y mae tuedd i rannu'r eisteddfod yn ormodol. Y mae gwahanol gymdeithasau yn manteisio ar y cyfle i gwrdd a chynnal eu cyfarfodydd blynyddol, ac yn fynych bydd y rhain ar yr un awr a rhywbeth pwysig yn y pafiliwn. Yn lle bod yn Undeb Cenedlaethol mae perygl i'r eisteddfod fynd yn gyfres o wahanol gyfarfodydd, heb fawr berthynas rhyngddynt a'i gilydd.

Drwg gennym orfod taro nodyn diflas ynglŷn ag ymddygiad rhan helaeth o'r dorf, eleni. Amlwg ydoedd i mi bod llawer wedi dod i'r eisteddfod, nid am eu bod yn cymryd diddordeb mewn llên na cherddoriaeth ond i'w difyrru eu hunain wrth glebran. Yr oedd y siarad o dan fargodion y babell y tu allan, yn ei gwneud yn anodd i'r cystadleuwyr a'r beirniaid oddimewn, ac yn fwy anodd fyth i'r rhai a oedd am glywed y cystadlwŷr. Yr oedd dynion anfoesgar yn siarad yn uchel o dan y peiriant darlledu ar y maes, heb roddi'r ystyriaeth leiaf i deimladau'r sawl a awyddai am glywed yr hyn a wneid ar y llwyfan.

Mae'n wir fod dynion yn cwrdd a hen gyfeillion ar faes yr eisteddfod, ac yn awyddus i gael sgwrs gyfeillgar. Ni all neb eu beio am hynny, ond dylent fod yn ddigon boneddigaidd i fynd o'r neilltu yn ddigon pell i beidio rhwystro eraill rhag mwynhau'r eisteddfod. Nid yw gwerin Cymru eto wedi dysgu sut i fod yn foesgar a boneddigaidd mewn eisteddfod a chyngerdd. Hyn yn fyr am yr allanolion ; efallai y daw cyfle i ddweud gair am y cyfansoddiadau ryw dro.

Llyfr Newydd Bertrand Russell.

Ei Deitl yw "A History of Western Philosophy."

Yn gyntaf oll bydd gwybod am y maes yr ymdrinir âg ef o fantais. Yn ei dair adran y mae'n ymwneud ag athroniaeth y Groegwr, yr Eglwys Gatholig a'r Cyfnod Diweddar. Yn yr adran flaenaf rhoddir deg pennod i'r cyfnod cyn Socrates, pedair pennod ar ddeg i Socrates, Platon ac Aristotles, a chwe phennod o Aristotles i Plotinus yn y drydedd ganrif wedi Crist. Ynglŷn â'r Eglwys Gatholig ymdrinir â'r Tadau mewn chwe phennod ac â'r *Schoolmen*, sef yr athronwyr catholicaidd o 600 A.D. i 1400 A.D., mewn naw o benodau. Dechrau'r cyfnod diweddar gyda'r Dadeni yn yr Eidal, a gorffen gydag athronwyr amlwg y ganrif hon. Rhennir yntau yn ddwy ran, sef o'r Dadeni hyd Hume, mewn dwy ar bymtheg o benodau, ac o Rousseau hyd ein hoes ni mewn pedair pennod ar ddeg. Cynhwysa'r gyfrol dros naw cant o dudalennau, mewn llythyren esmwyth i'r llygad, ac y mae'n eithriadol ddarllenadwy ac yn rhyfeddol feistrolgar i gyfleu safbwynt pob athronydd mewn cwmpas byr, ac mewn beirniadaeth graff, ond hollol deg, lle y mae galw am hynny. Nid oes raid i'r darllennydd fod yn hyddysg mewn athroniaeth cyn dilyn ymdriniaeth yr awdur a mwynhau, heb son am dderbyn budd, pob tudalen o'r llyfr. Gallwn dybio mai darlithiau a draddodwyd yn yr Unol Daleithiau yw sail y penodau, a hynny sy'n cyfrif am eu bod mor ddealladwy i leygwr gweddol effro ei feddwl. Nid yw'r awdur yn ymdrin ag athroniaeth y dwyrain, ag eithrio peth sylw i'r safbwynt Iddewig sydd wrth wraidd cred yr Eglwys Gatholig, er wedi ei blethu ganddi â syniadau athronyddol Groeg i gymaint graddau nes ei wneud yn hollol annerbyniol i'r meddwl Iddewig. Gobeithio y cyhoedda gyfrol arall yn ymdrin ag athroniaeth y Parsce, yr Hindw, y Budhist a'r Taoist.

Diddorol yw dilyn ymresymiadau athronwyr cyntaf Groeg. Alltudion o'u henwlad mewn gwirionedd oedd y rhain, yn cartrefu ar lannau môr yn Asia, yr Eidal, a Sicily yn bennaf, wedi ymryddhau o lyffetheiriau hen draddodiadau crefyddol eu cydwladwyr yn eu byd newydd. Ffrwyth y rhyddid newydd oedd ymhyfrydu mewn datrys cyfrinach gweithrediadau natur, a cheisio dirnadaeth o berthynas y rhai hyn a chynnwys meddwl dyn sy'n adlewyrchiad ohonynt. Wrth hir ymdrafod â'r pwnc, a'r naill feddyliwr yn ceisio rhagori ar y llall mewn damcaniaeth mwy boddhaol, fe saif dau beth allan yn glir yn athroniaeth y Groegwr, sef dilysrwydd rheswm dyn wrth ddehongli pethau, a bodolaeth byd ysbrydol sydd yn wir i'r cyfrinydd, ond tuhwnt i allu'r meddwl i ddisgrifio ei gynnwys. Pythagoras, Platon, Philo, a Plotinus yw cynrychiolwyr

y byd cyfriniol hwn ymhlith y Groegiaid. Cofier fod pob un o'r rhai hyn yn gofalu na fyddai eu cyfriniaeth yn disodli eu rheswm.

Mwy diddorol, o bosibl, i grefyddwyr yw ymdriniaeth yr awdur â meddylwyr yr Eglwys Gristnogol, a chanolwn ar y maes hwn. Yn naturiol nid anwybydda gefndir cred yr Eglwys yng nghrefydd Israel. Nid yw'r awdur yn rhy anturiaethus ynglŷn â thraddodiadau Israel, ond pwysa ar awdurdod Proffeswr Robinson, o Gaerdydd, yn arbennig ; a thybiwn y teimla Caerdydd yn falch o'r anrhydedd o gael bod yn gefn i ysgolor mor fyd-enwog â Bertrand Russell. I'r Hebrewr, meddai, y syniad llywodraethol am Dduw yw "Gallu." Hawdd cytuno â hyn, gan mor aml yn yr Hen Destament y gwneir ystormydd a chynyrfiadau natur yn gyfryngau Duw i ddangos ei bresenoldeb. Dylid chwanegu mai gallu yng ngwasanaeth cyfiawnder sydd gan yr Hebrewr.

Mae'n wir mai syniad unochrog oedd gan yr Hebrewr ar y cyntaf am gyfiawnder, fel y gellir casglu oddi wrth enghraifft allan o lawer, sef Deut. 14, 21. Ebr yr awdur (tud. 329), ni ellir cadarnhau hanes Israel cyn amser Dafydd a Solomon o ffynhonellau o'r tuallan i'r Hen Destament, ac amlwg mai ffrwyth dychymyg yw'r hanesion cynharach. Heb fynd mor bell â Proffeswr A. S. Yahuda yn ei lyfr, *The Accuracy of the Bible*, na'r meddyg, T. Miller Neatby, yn ei lyfr yntau, *The Witness of Archaeology to the Trustworthiness of Bible History*, sy'n gweld cadarnhad dibendraw i hanesion cynnar y Beibl mewn hen gofnodion Aifftaidd, Babilonaidd a Hitaidd, gellir casglu fod hen hanesion Israel yn gywir i'w cyfnod ymhlith y Semitiaid a bod iddynt seiliau hanesyddol ar y cyfan. Caed yn ddiweddar wrth gloddio yn Ur y Caldeaid yn ôl *Times*, Mawrth 29, 1929, olion dinas yn gorffwys ar glai pur, ac yna wedi cloddio drwy wyth troedfedd o glai, olion dinas a guddiasid gan ddilyw a gludasai wyth troedfedd o glai i'w chladdu. Tystiolaeth gref, ebe Dr. Dodd, i gywirdeb y traddodiad am ddilyw ym Mabilonia ymhell yn ôl. Caed ychydig fisoedd yn ôl enw "Israel" ar faen a ddaeth i'r wyneb yn yr Aifft yn perthyn i deyrnasiad Rameses II, a lleolid hwy i'r dwyrain o Iorddonen yng nghofnodion hwnnw. Perthynas i'r Hebreaid oedd Khammurabi, enwog frenin ym Mabilonia rhyw ddwy ganrif ar hugain cyn Crist, a oedd yn gynnyrch gwareiddiad uchel ac yn arweinydd mewn datblygu manteision gwareiddiad, ac erys y darlun ohono yn derbyn y *Ddeddf* o law ei dduw Marduc, i'w weld yn y British Museum. Chwedl ddiddorol yw'r hon a ddisgrifia yr ysbryd drwg Zu yn dwyn hen Ddeddf Babilonia ac yn dianc gyda hi i fynydd-dir Sinai, a Marduc yn anturio i ganol ystormydd Sinai i'w hadfer er mwyn ei chyflwyno i Khammurabi. Ai tybed nad y stori hon wedi ei diwygio yw eiddo'r Hebreaid am y modd y cawsant hwy eu Deddf, canys deddf Khammurabi a adgynhyrchir yn nifer luosog o ordeiniadau Deddf Israel.

Yn Genesis 10, 11, dywedir i Asur ymfudo o dir Nimrod ac adeiladu Ninife a'i heolydd llydain (rehoboth-ir) a Cala. Mae pob coflech a ddaeth i'r golwg yn Asyria yn profi gwirionedd y gosodiad mai o Fabilon yr hannodd Asyria, gan gadarnhau yr adnod hon. Ar yr un pryd gosodwyd hen draddodiadau wrth ei gilydd, a diwygiwyd hwynt gan athrawon Israel er mwyn ategu eu cred eu bod yn bobl uwchraddol eu crefydd a'u moes i'w cymdogion. Mae llyfrau'r Cronicl yn enghraifft o defnyddio hanes i gadarnhau cred yn hytrach na chofnodi ffeithiau. Ond er pob diffyg yn llyfrau cysegredig yr Hebrewr y mae ein dyled iddynt yn anhraethol fawr am seiliau ein crefydd. A chaniatau nad hanes yw Genesis, gellir dweud ei fod y llyfr mwyaf crefyddol ei awyrgylch, ac eithrio'r Salmau ac Esaia, yn yr Hen Destament. Derbyniodd yr Eglwys Gristnogol brif elfennau cred yr Hebrewr, ond gwisgodd rhai ohonynt fel nad yw'r Hebrewr mwyach yn eu nabod na'u cydnabod, yn enwedig felly y syniad o Feseia. Mynnodd y Cristnogion osod Iesu o Nasareth i lanw rhôl y Meseia, a newidiwyd ei waith o fod yn waredwr ei genedl o ormes estron i fod yn waredwr ei ddilynwyr o drawslywodraeth pechod, a newidiwyd y gwir Israel o fod yn blant Abraham yn ôl i fod yn blant Duw mewn ysbryd, gan anwybyddu gwaedoliaeth, lliw a lle. Gwir y defnyddiai'r Cristion Feibl yr Hebrewr i ategu ei gred, a bu'n euog o wyro llawer brawddeg ynddo a newid rhai i bleidio ei ddaliadau ef, ond hawlia gredyd, er ei feiau, am weled mor glir fod crefydd ysbrydol yn torri i lawr bob clawdd terfyn rhwng dosbarthiadau mewn cymdeithas a rhwng cenhedloedd a'i gilydd ac yn eu cofleidio yn rhwymau teulu'r Tad Nefol. Sonia'r awdur am gred syml yr Efengylau hanesiol a'r Actau sydd mor debyg ei chynnwys i Gristnogaeth poblogaidd yr Unol Daleithiau, ac am y ffurf mwy cymhleth o'r gred yn Epistolau Paul ac Efengyl Ioan, a dilyna'r datblygiad yn syniadau arweinwyr yr Eglwys yn y canrifoedd dilynol, gan olrhain dylanwad athroniaeth y Groegwr a thraddodiadau'r Iddew arnynt, nes ei gwneud yn hawdd i'r darllenydd gymharu'r ffydd Gristnogol yn ei symlrwydd cyntaf a'i chywreinwaith diweddarach. Saif un ffaith allan yn amlwg iawn ynglŷn a meddylwyr yr Eglwys yn wahanol i'r Groegiaid, sef fod y diwinyddion, fel gafr yn rhwym wrth bost hyd y tennyn, yn gaeth i'r gred fod yr Hen Destament yn anffaeledig. Geilw'r awdur hwynt, mewn canlyniad, yn euog o ragrithio, am yr ofnent dynnu'r casgliadau naturiol oddi wrth eu hymresymiad, oblegid fod anffaeledigrwydd y Beibl yn orthrech ar eu meddwl. Iesu y tair Efengyl gyntaf wedi ei wisgo yng nghochl athronydd Groeg yw Crist diwinyddiaeth awdurdodedig yr Eglwys, ac yn rhyfedd iawn yr oedd y wisg athronyddol yn barod cyn i Iesu hanes ymddangos, ac y mae hi yn Plotinus, Origen a Deon Inge yn dra thebyg ei gwëad ac fel cochl Herod, nid yw mor ddymunol am Iesu a'i ddillad ei hun.

Y mae'r ymdriniaeth o Awstin o Hippo a Pelagius yn werthfawr, y naill yn ceisio gwneud ei ddiwinyddiaeth yn gyson a'i brofiad o fore oes direol anfoesol a throedigaeth llwyr a bywyd pur ar ôl hynny, fel y dengys ei athrawiaeth ryfedd fod dynoliaeth gyfan o ddyddiau Adda hyd ddiwedd byd yn gyfrannog o'i bechod a'i gollfarn ef am eu bod yn bresennol mewn posibilrwydd yn ei gorff ef fel y tad cyntaf; a'r llall mor lan ei gydwybod yn rhoi drws agored i baradwys i bob baban heb na sacrament nac offeiriad. Wedi'r holl ganrifoedd o ddweud Amen i Awstin y mae gan gorff mawr yr Eglwys waith enbyd i wneud iawn am ei chreulondeb i eneidiau diniwed, am eu collfarnu yn ddiachos. Mor syml y gwneir safbwynt Aquinas yn y llyfr hwn, a chwarae teg i'r doctor angylaidd, y mae ganddo weledigaeth o wirioneddau, fel Q. E. D. Euclid, sydd a'u sicrwydd yn gadarnach na gallu unrhyw feirniad i'w dymchwel.

Yn ei sylwadau ar le a dylanwad y Babaeth ar feddwl a bywyd y Gorllewin, tybiwn na cheir eu gwell i gyfarwyddo efrydydd o hanes yr Eglwys i ffurfio syniad clir a chywir am hanes: ond y mae grym y llyfr hwn yn ei feirniadaeth ar y meddylwyr. Rhoddir y rhesymau a ddefnyddiwyd gan Anselm, Abelard, Aquinas, Duns Scotus, Decartes, Kant, Leibniz, Hegel, ac eraill dros y gred yn Nuw, ac yna dangosir yn ddifeth eu gwendid. Teimla'r efrydydd fod pob un o'r meddylwyr mawr o ddyddiau Thales hyd Bergson a gweledigaeth ganddo o ryw agwedd anhebgor o'r gwirionedd, ac ni all lai na bod yn ddiolchgar am gynorthwy athronydd mor fedrus i'w pwyso, a gweld lle y maent yn brin, ac i'w gwerthfawrogi am eu cyfraniad i wybodaeth; ond wedi dilyn yr awdur bob cam a gwrando beth sydd ganddo ef i'w gyfrannu na chaed gan neb arall, rhaid bodloni ar gytuno ag ef na ellir creu cred yn Nuw trwy unrhyw ymresymiad athronyddol. Medr athroniaeth ategu'r gred lle y ceir hi; ond onid yw'n bresennol, ni wna athroniaeth ond milwrio yn ei herbyn.

Un peth gwerthfawr yn y llyfr hwn yw'r bywgraffiad a roddir o bob meddyliwr cyn ymdrin â'i safbwynt, ac ni esgeulusa'r awdur ddangos faint ein dyled i'r gwyddonwyr; oblegid nid y gŵr craff mewn mathemateg fel gwyddor sydd wrth fôn y mudiad mawr sydd wedi darostwng pwerau natur i wasanaeth dyn, ond y sylwedydd ym myd bywydeg, cemeg, a pheirianwaith, a hwnnw yn ceisio cydio gwahanol sylweddau wrth ei gilydd i weld eu heffaith—yr experimentist sydd wedi newid cymaint ar gwrs y byd a chwanegu at ein cysur, ein hiechyd a'n defnyddioldeb. Sonir weithiau am ddyn swrth, gan olygu gŵr heb floesgni ar ei dafod: gellir cymhwyso ansoddair tebyg at y llyfr hwn, canys nid oes ar yr awdur gywilydd siarad yn blaen am bersonau a'u hymddygiadau.

Diwrnod Oddicartref.

Gan y Parchedig David Evans, Cwmiago.

Un o elfennau cryfaf y natur ddynol, yn ddi-os, yw'r elfen heidgarol. Heidgarol! ebr y darllenydd; beth yn y byd yw ystyr y gair? Wel, dyna'r gair Cymraeg y medrais ddod o hyd iddo a gyflea agosaf ystyr y gair Saesneg—gregarious. O fynno'r darllenydd wybod ystyr y gair hwn, troed i'r geiriadur. Nid un o elfennau cryfaf y natur ddynol yn unig mo honi, eithr un o elfennau cryfaf y natur anifeilaidd yn gyffredinol. Sylwer ar unrhyw ddosbarth o anifeiliaid, megis, y ceffyl, y fuwch, y ddafad; heidio i gwmni creadur o'r un dosbarth a wna pobun ohonynt—crefa'r ceffyl am gwmni cyd-geffyl; unwedd pob math arall ar anifail. Nid eithriad mo dyn; o chlyw am gynulliad pobl yn rhywle, tu mewn i bellter rhesymol, deffry yn ddiymdroi yr elfen heidgarol, a grea awydd i fod o'r nifer. Ar y cyfan, elfen ddaionus ei heffeithiau ydyw. Bod cymdeithgar yw dyn, a da yw iddo gymdeithasu â chyd-ddyn. Bywyd annaturiol yw bywyd y meudwy a'i gyfynga'i hun, hyd y medr, i'w gell unig.

Eithr nid elfen heb eithriad iddi yw hon. Casáu'r dorf a wna ambell ddyn, megis, y Bardd Lladinaidd a ddywed—"Odi vulquo profanum." Maddeued y darllenydd imi am ddwyn ohonof i mewn i'm llith ymson y cwbl o'r Lladin y sydd wedi glynu wrth fy nghof. Colegddysg yw peth fel hyn, ebe rhywun. Boed felly; os ffaeledd ydyw, onid yw'n ffaeledd hynod o gyffredin? A pham lai na chaf awyru'r ffaeledd mwy nag yr awyrir yr unrhyw ffaeledd mewn cysylltiadau a chan eraill, megis, dwyn i mewn i bregeth reffyn o farddoniaeth Saesneg annealladwy—po fwyaf annealladwy y bo, gorau i gyd. Wn i ddim beth a berodd i'r bardd arfer iaith mor eithafol—" 'rwy'n casáu'r dorf ffol." Gwir yw yr honnir i'r bardd gryn ryddid i gamu dros derfynau rhesymoldeb; eithr ymylu ar yr afresymol a wna'r tri gair uchod. Ni raid, ac ni ddylid, casáu'r dorf, fel na raid ac na ddylid casáu'r unigolyn. Hoffaf gwmni cyd-ddyn, yn enwedig o bydd y cwmni o gyffelyb anian a thueddbryd i'm heiddo i. Eithr yr un pryd, da yw i ddyn, yn awr ac eilwaith, encilio i ryw ongl unig, o glyw swn a dwndwr y byd, ac o afael ffwdanau ei fywyd beunyddiol; dwg y profiad yn ei gôl adfywiad meddwl a chalon ac ysbryd a'i denfyn yn ôl i'w gylchfyd arferol megis dyn newydd.

Trwy garedigrwydd Mr. a Mrs. Jones, Bryn Ceri, ac yng nghwmni diddan fy nghyfaill, y Parch. Islan Jones, bu imi'r pleser y dyheais am dano aml dro o ymweld â Thresaith; Tresaeth, yn ôl y myn rhai ei sillebu. Os y cyntaf yw'r sillebiaeth gywir, beth yw tarddiad y gair? Tre *saith sant*, efallai; er na wn i am un rheswm pam y dylai cynifer o seintiau dyrru i fangre mor unig, onid yw unigedd yn hanfodol i fagwraeth santyddiaeth. Pentref a thraethell ar lan

mor Cantref y Gwaelod yw Tresaith—llecyn eithriadol unig, y gall a ddymuno fwynhau perffaith dawelwch. Pam y dyheais ymweld ag ef, ni allaf, yn hollol gywir, esbonio ; efallai am mai yno y bu Allen Raine, y nofelyddes enwog, yn cartrefu am ran fawr o'i heinioes. Er nas gwelais, eto, un o'm harwresau ydoedd, ar gyfrif y mwynhad a aml brofais o ddarllen cynhyrchion ei hymennydd ffrwythlon. Perthynai i bobun o'i nofelau rhyw swyn rhyfeddol, na allai lai nag apelio'n nerthol at deimlad gwlatgar pob Cymro. Darluniai'r cymeriad Cymreig, nid heb gyffwrdd yn brin â'i ddiffygion—ni all un nofelydd ochel cyffwrdd â diffygion—eithr ymroi yn gwbl, gyda chywirdeb a chydymdeimlad. O ddarllen a gyfansoddodd, yr unig ddedfryd posibl ydyw—"Yr oedd hi yn caru ein cenedl."

Wedi treulio rhyw ddwyawr i rodianna hyd y graean mân, ac yfed yr awelon iachus, dwfn drwythedig gan a elwir yn osôn, a chwythai arnom o gyfeiriad y môr, rhaid oedd ffarwelio â'r llecyn prydferth, a chyfeirio camrau tua'r Eglwys—Eglwys Penbryn—Llanfihangel Pen y Bryn, yn ôl *Cymru*. Saif ar fryncyn, ymron ar fin y traeth, gyda'r môr, yn ei lanw, ymron llyfu muriau ei mynwent eang. Adeilad amlwg hynafol ydyw. O sylwi ar brinder y boblogaeth, ni allwn lai na synnu iddi gael ei lleoli yng nghwr eithaf y plwyf. O chwilio, daethpwyd o hyd i orweddle olaf y nofelyddes ; uwch ei bedd y mae cofadail brydferth, â'r argraff a ganlyn wedi'i gerfio arni—"Also of his wife, Anne Adeliza, Puddicombe (Allen Raine). Born 6th of October, 1836. Died 21st of June, 1908. Aged 71 years." O fanylion ei hanes, ni wn fawr rhagor nag yr hanoedd o'r bardd o Gastell Hywel. Diddorol a fyddai erthygl arni gan un a'i hadwaenai'n orau, sef, Miss Jones, Gellifaharen (gynt).

Daw diwedd i bopeth ; a daeth diwedd i'm hymweliad â Thresaith ; ac wrth gefnu ar y cwbl a welais, da oedd gennyf wynebu tua'm cynefin ; oblegid cyfranogaf, fel y cyfranoga pawb dynion, o deimlad Howard Payne yn ei gân anfarwol—"Home, Sweet Home."

Er crwydro ohonof dros wledydd ymhell,
A chwilio am lecyn na'm cartref fai'n well,
Yng nghiliau fy nghalon fe deimlaf y swyn
Sy nglyn â'r hen aelwyd a brofais mor fwyn.

Yn alltud o'm cartref pob gwychter sydd ffôl,
O na chaf i'm bwthyn cynefin fynd 'n ôl,
A chlywed yr adar yn pyncio eu cân,
Nes llenwir fy mynwes o wynfyd yn lân.

Ie, er y'n gelwir gan drafferthion byd a bywyd i droi cefn ar y cartref, eto, "Boed imi gael dychwel i'm hoff gartref clyd" yw byrdwn y gân.

Cyrddau'r Gymdeithas a Chwrdd Dathlu Canmlwydd Rhydygwin.

CYNHALIWYD yn Rhydygwin ar ddyddiau Mawrth a Mercher, Awst 10 a 11. Pregethwyd nos Fawrth gan y Parchedigion D. Jacob Davis, B.A., Aberdar, a T. O. Williams, M.A., Llanbedr. Testun Mr. Davis oedd, "A phaham yr ydych yn gofalu am ddillad? Ystyriwch lili y maes, pa fodd y maent yn tyfu; nid ydynt nac yn llafurio nac yn nyddu." Mathew vi., 28. Dywedodd y synied rhai nad yw dyn yn gwneud dim daioni oni fydd yn llafurio ac yn nyddu. Un o alwadau mâwr yr oes ydyw cynhyrchu mwy—gwrteithio mwy ar y tir er mwyn cynhyrchu mwy o fwyd i gynnal y trigolion; galw am fwy o lo; galw am fwy o bob math ar nwyddau. Meddyliant nad yw eglwys a gweinidog yn cyfrannu dim tuag at gynhaliaeth bywyd, bod gweinidogion yn dal eu swydd er mwyn y safle a rydd eu swydd iddynt a'r tâl a dderbyniant. Ond y mae eglwys yn cynhyrchu cymeriadau da, sydd drwy eu dylanwad yn dyrchafu a santeiddio bywyd. Y peth pwysicaf yn amser rhyfel ydoedd cynnyrch yr eglwys, sef ysbryd heddwch. Er nad yw gwaith gweinidog yn un trystfawr ac er nad yw ei gyflawniadau yn amlwg i'r olwg, ni wyddys pa faint o ddaioni a wneir pan ymwêl y gweinidog â thŷ lle y mae afiechyd yn bod. Dichon y gwneir baich y teulu hwnnw yn ysgafnach drwy ei eiriau. Er nad yw'r hyn a gyflawnir yn Rhydygwin y beth y gŵyr y byd amdano, ac er nad oes clodfori ar y wasanaeth a wneir yma, er hynny y mae dylanwadau'n mynd allan sy'n peri fod safon bywyd yn uwch yn yr ardal. Dyma galondid aelodau eglwys heddiw, ac o gynorthwyo'r achos yn ôl eu gallu oes ar ôl oes bydd gobaith y gwêl rhywrai ddathlu dau canmlwydd yr achos yn Rhydygwin.

Testun Mr. Williams oedd, "Oni werthir dau aderyn y tô er ffyrling? Ac ni syrth un ohonynt ar y ddaear heb eich Tad chwi." Mathew x., 29. Dywedodd y dengys y geiriau fod aderyn yn werthfawr gan Dduw. Gorwedd ei werth nid yn y pris a geir amdano yn y farchnad. Daw ei gân yn y gwanwyn i sirioli'r hynafgwr a gaethiwyd yn ei dŷ drwy'r gaeaf. Llonnir ei ysbryd gan y gân, a daw grym newydd i'w gerddediad. Pwy a all fesur gwerth peth felly? Ond isel ydoedd pris yr aderyn. Dengys hynny fod tuedd y pryd hwnnw i ddibrisio rhai pethau. Y mae'r un duedd yn bod o hyd. Oni werthir gwirionedd a gonestrwydd heddiw am ychydig elw bydol? Dywedodd Mr. Williams fod yna werthoedd sy'n bwysicach nag elwon bydol. Pan fydd elwon bydol yn fwy eu gwerth na dim arall amharchir deddfau moesol ac ysbrydol, a'r canlyniad i fywyd ydyw dirywio. Y mae'n bryd i'r eglwys ddihuno rhag iddi golli golwg ar yr egwyddorion sy'n diogelu bywyd rhag mynd yn aberth i elwon bydol a phleserau anianol.



Y PARCHEDIG LEWIS WILLIAMS
[*Gweinidog Rhydygwin a Chiliau*]

Neilltuwyd y rhan gyntaf o gyfarfod prynhawn Mercher i ddathlu canmlwydd codi capel Rhydygwin. Cyflawnwyd y rhan ddefosiynol gan y Parchedig E. O. Jenkins, Llwynrhydowen. Siaradwyd yn gyntaf gan y Parchedig T. O. Williams. Rhoddodd yr hanes am yr eglwys a gynullai yn yr Ystrad yn gorfod rhoddi i fyny'r addoldy. Rhoddodd ddau gyngor i aelodau Rhydygwin. Y cyntaf—cofio eu blaenorwyr fel y byddo hanes y rheini yn symbylu ffyddlondeb a gweithgarwch gyda'r achos. Yr ail—ni all eglwys fyw ar ei gorffennol.

Dilynwyd ef gan y Prifathro J. Islan Jones, M.A. Soniodd am amryw a fu'n flaenllaw gyda'r achos yn ei gychwyniad, ac yn bennaf am un ohonynt, David Jenkin Rees a oedd yn byw yn Lloyd Jack. Yn ei dŷ y dechreuwyd cynnal gwasanaethau Undodaidd yn yr ardal, a thrwyddo ef y codwyd ysgoldy yn yr Ystrad lle y bu'r gynulleidfa yn addoli hyd nes i brydles y tŷ fyned allan, ac i ddrws y tŷ gael ei gau yn eu herbyn. Dywedodd fod Capel Rhydygwin yn gofadail i'r aberth a wnaed gan ddynion er mwyn cael tŷ i addoli Duw a chyhoeddi'r hyn a gred yr Undodiaid ydyw egwyddorion y grefydd Gristnogol.

Dilynwyd y ddau siaradwr gan y Parchedig J. Marles Thomas' M.A., Llywydd y Gymdeithas. Yn sail i'w sylwadau cymrodd y geiriau, "Nid yn ddiog mewn diwydrwydd, yn wresog yn yr ysbryd, yn gwasanaethu'r Arglwydd." Rhufeiniaid xii., 11. Dywedodd nad credo yw crefydd ond ysbryd, a hwnnw yn ysbryd gwresog. Ysbryd felly sy'n symud pobl i wasanaethu'r Arglwydd. Dangosodd cynulleidfa'r Ystrad ysbryd felly pan amddifadwyd hwy o'u capel ac y gorfodwyd hwy i chwilio am le i godi capel newydd a dwyn y draul. Ysbryd felly a bair i bobl bresennol Rhydygwin fod yn weithgar gyda'r achos ac yn ffyddlon yng ngwasanaeth yr Arglwydd.

Yng nghyfarfod y prynhawn siaradwyd hefyd gan Dr. R. O. Jones, cadeirydd y gynulleidfa Gymraeg yn Llundain. Talodd wrogaeth i'r dylanwadau sy'n aros ar bobl ieuainc y capel sy'n byw yn Llundain.

Dechreuwyd cyfarfod yr hwyr ddydd Mercher gan y Parchedig T. Lloyd Jones, Tyngwndwn. Pregethwyd gan y Parchedigion J. D. Jones, B.A., B.D., Gellionnen, ac E. O. Jenkins, Llwynrhydowen. Testun Mr. Jones oedd, "Nid pob un ar sydd yn dywedyd wrthyf, Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i mewn i deyrnas nefoedd, ond yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys fy nhad yr hwn sydd yn y nefoedd." Mathew vii., 29. Cyfeiriodd fod yr achos yn Rhydygwin wedi cynnal gair y bywyd yn yr ardal am gan mlynedd. I bwrpas crefydd y codwyd yr adeilad, a chrefydd sy'n rhoi sylfaen ymddiriedaeth i ni yn strygl bywyd. Y mae pethau sy'n datguddio eu gwerth ynddynt eu hunain, ond myn rhywbeth oddifewn ddweud wrthym nad ydynt yn tarddu ohonynt eu hunain. Yr ydym ni yma er mwyn tyfu'n Dduw-debyg. Y cymhelliad mawr a rwymodd yr addolwyr yn yr Ystrad yn gynulleidfa oedd y pwyslais nid ar gredu rhyw ddiwinyddiaeth neilltuol am Berson Iesu a Natur Duw ond ar fyw dysgeidiaeth foesol yr efengylau. Iddynt hwy nid geni Iesu na'i farw oedd yn bwysig ond ei ddysgeidiaeth ac esiampl ei rodiad rhwng y crud a'r groes. Erbyn hyn y mae pobl feddylgar yr enwadau yn cydnabod gwerth safiad pobl gyffelyb eu hanian a'u safbwynt i arloeswyr yr achos Undodaidd yn yr Ystrad. Gwrth-

odasant edrych ar eu cenhadaeth drwy'r spectol sectyddol a oedd mor boblogaidd gan mlynedd yn ôl. Yr oeddynt ymhlith yr arloeswyr a ail-ddarganfu rhywbeth na ddylai Cristnogion erioed fod wedi colli golwg arno, y syniad fod Teyrnas Dduw i'w sefydlu ar y ddaear. Codwyd yr aelwyd grefyddol yn yr Ystrad gan angerdd y profiad crefyddol o Dadoldeb Duw, a thrwon ni, hyd y gallwn, y gweithreda'r Cariad Tragwyddol hwn na edy i undyn fynd ar goll. "Y mae gennych draddodiad ardderchog yn Rhydygwin, ond cofiwch hyn—y mae traddodiad yn pydru oni chysylltir ef â phrofiad crefyddol byw. Dyna'ch braint chwi heddiw, a bydded y tŷ addoli hwn i chwi yn gyfrwng i rwystro eich cydwybod i fod yn ddifater a'ch gomedd i grwydro ar lwybrau ffol. Parhaed y tŷ hwn i chwi yn ffynhonnell cadernid a chysur a thangnefedd yn strygl eich bywyd. Parhaed gwenau'r Duw a wasanaethodd cyhyd ar fywyd eich gweinidog annwyl. Ar fywyd Dyffryn Aeron erys argraff ei gymeriad. Parhaed swyn ei barabl a melyster a dwyster ei bregethau. Y mae llaweroedd y tu allan i gyffiniau'r Dyffryn yn hoffi clywed ei lais ac yn ei barchu yn fawr. Gŵyr rhai ohonom, a minnau fy hun yn eu plith, am werth ei gyfarwyddyd yn nyddiau ein ieuenctid. Bwriasoch, Mr. Williams, eich had i'r ddaear mewn gobaith, a gwelsoch y sglein euraid ar ysgubau eich cynhaeaf. Bendith y Duw byw a barhao gyda chwi a'ch cynulleidfa ffyddlon."

Testun Mr. Jenkins oedd, "Ac fel yr oedd efe yn ymresymu am gyfiawnder a dirwest a'r farn a fydd, Ffelics a ddychrynnodd, ac a atebodd, Dos ymaith ar hyn o amser, a phan gaffwyf amser cyfaddas mi a alwaf arnat." Actau xxiv., 25. Dywedodd fod pump o bethau yn yr adnod—y pregethwr, y gynulleidfa, mater y bregeth, y dull o bregethu, ac effeithiau y bregeth. Paul oedd y pregethwr, ac yr oedd yn bregethwr mawr. Ffelics a'i wraig Drusila oedd y gynulleidfa, dim ond dau. Y mae gan y gynulleidfa lawer i wneud ynglŷn â helpu'r pregethwr i bregethu. Y mae cynulleidfa fechan yn digalonni pregethwr, ac nid yw teimlad felly yn ei helpu i bregethu. Pregethai Paul i ddau. Heblaw hynny nid oedd dim yn dda yng nghymeriad y ddau. Nid oedd hynny hefyd yn ei ysbrydoli i bregethu. Ei ddull o bregethu oedd drwy "ymresymu." Siarad â'r bobl a'u hargyhoeddi. Dirgelwch daioni pregethu yw argyhoeddi dynion. Onid argyhoeddir pobl, ni fydd dim daioni o bregethu. Mater ei bregeth oedd cyfiawnder, dirwest, a'r farn a fydd. Dywedodd Mr. Jenkins mai hon oedd y bregeth fwyaf a draddododd Paul. Pe arferid cyfiawnder ni fyddai na streic na rhyfel. Dyna'r ddau beth sy'n blino'r byd heddiw. Ystyr "dirwest" yw cymedroldeb gyda phob peth, gydag arferion a phleserau a phopeth arall ; dyn yn feistr arno'i hun, yn feistr ar ei dymer ac ar bob peth arall. "A'r farn a fydd," ceisiai Paul argraffu ar feddwl y ddau fod yna ganlyniadau i'w gweithredoedd, fod

gweithred dda yn dwyn esmwythdra meddwl a gweithred ddrwg yn dwyn anesmwythdra meddwl.

Un effaith i'r bregeth oedd dychrynu Ffelics. Nid bob amser y mae pregethu yn cael effaith. Yn ofer y pregethir oni bydd y bregeth yn cael effaith. Gan nad oes neb yn berffaith y mae eisiau gwneud dyn yn anesmwyth ei feddwl a'i deimlad ynghylch ei fywyd. Y mae'r bregeth yn gwneud daioni pryd y bydd yn cael effaith. Diolch am aberth y tadau a'r mamau gynt i godi'r capel hwn, yn gyfle i drigolion yr ardal i glywed yr efengyl yn cael ei phregethu.

Wrth yr organ ym mhob oedfa yr oedd Mrs. Davies, Caerwilym ac yr oedd cyflawnder y lluniaeth ar y byrddau yn adlewyrch o frwdfrydedd croesawus y chwiorydd.

COFNODION Y PWYLLGOR.

CYFARFU yn Rhydygwin bore Mercher, Awst 11, dan lywyddiaeth Llywydd y Gymdeithas, y Parchedig J. Marles Thomas, M.A.

YR YMOFYNNYDD.—Yr oedd yn ddrwg iawn gan y Pwyllgor dderbyn yr hysbysiad y byddai'r Prifathro J. D. Jones, B.A., B.D. yn ymddeol o olygyddiaeth YR YMOFYNNYDD ar ddiwedd y flwyddyn hon. Penderfynwyd ein bod yn gofyn i'r Cyn-brifathro J. Islan Jones, M.A. gymryd at y gwaith.

YR IEUENCTID.—Cafwyd adroddiad gan y Parchedig D. Jacob Davies, B.A. ar y symudiadau i sefydlu mudiad yr ieuenctid.

MYFYRWYR.—Penderfynwyd ein bod yn ymdrechu i roi cynorthwy o £80 o leiaf yn flynyddol i'n myfyrwyr yng Ngholeg Caerfyrddin. Gobeithir y bydd un myfyriwr yn efrydu yno'r tymor nesaf, ac y mae un arall a'i wyneb ar y weinidogaeth ; un o Drebanos, a'r llall o Aberdâr. Trysorydd Cronfa'r Myfyrwyr yw'r Parchedig Simon Jones, B.A. Disgwylir i bob cynulleidfa wneud cyfraniadau blynyddol i'r Gronfa.

PENRHIW.—Talwyd sylw i gais oddi wrth y Dr. Iorwerth C. Peate, Ceidwad Amgueddfa Werin Cymru ynglŷn â Chapel Penrhiw. Gofynnai am gael ei symud i'r Amgueddfa fel enghraifft o'r adeiladau a fu'n bwysig yn hanes Anghydffurfiaeth Cymru, am fod perygl iddynt fynd yn adfeilion. Penderfynwyd ymgynghori ag ymddiriedolwyr y capel.

TANYSGRIFIADAU.—Awgrymodd y Trysorydd y byddai'n dda pe gallai'r tanysgrifwyr o hanner coron y flwyddyn godi'r swm i goron.

CYMORTH I'R EGLWYSI.—Penderfynwyd a ganlyn : Aberystwyth, £12/10/0 ; Caerfyrddin, £10 ; Llundain, £7/10/0 ; Y Gymdeithas Gyffredinol, £6/6/0.

SWYDDOGION.—Llywydd, Parchedig J. Islan Jones, M.A. ; Is-lywydd, Parchedig E. Gwilym Evans, B.A.

S. E. BOWEN, *Ysgrifennydd.*

DYDD SABOTH YW.

(*Ysgrifennwyd y penillion pan oedd y bardd yn garcharor rhyfel yn y Dwyrain Pell*).

DYDD Saboth yw, a minnau'n llawn
O ysbryd moli Duw,
Yn gwrando un â gwrol ddawn
Yn traethu sut mae byw.

* * *

A chlywaf dinc o gopa'r bryn
Hen gloch y Llan man draw
Yn galw 'nghyd y brodyr hyn
Sy'n dod at Dduw heb fraw.

A gwelaf deulu bach yn gwneud
Eu ffordd hyd heol gul,
A blodau'r clawdd fel pe am ddweud
Bod hwythau'n cadw'r Sul.

Ac un ferch fach yn llaw ei thad
Sy'n cario tusw hardd—
Rhai blodau gwyn, rhai coch fel gwa'd—
Eu gwell ni welodd gardd.

A gwelaf hwy yn buan droi
Drwy fwlch y fynwent lawn,
A'r powsi'n cael ei araf roi
Ar fedd un annwyl iawn.

Ac yna ânt i mewn i'r tŷ
Er ceisio bywyd gwell,
A chanddynt hwy mae 'nghalon i
Fan hon yn China bell.

Ond mwy na bod mewn estron wlad
Heb neb yn annwyl im ;
Carcharor blin wyf yn y gâd,
Pa hyd, ni wn i ddim.

* * *

A Saboth yw, a mi mewn hedd
O fewn addoldy llwm,
Heb ynddo ffenestr, drws, na sedd,
A'r baich yn pwyso'n drwm.

Mae'r weddi'n daerach nag oedd gynt,
A'r bregeth dyfnach yw—
Can's caethion ydym ar ein hynt
Yn erfyn am gael byw.

Capel y Groes. FRANK EVANS.

Priodas.

AWST 25, yn Eglwys Silian, JOHN HERBERT RICHARD, Lowtre, Llanwnnen, a JANE JONES, Dremddu Hall, Silian. Pob llwyddiant a dedwyddwch a'u dilyno.

Marwgofion.

AR Orffennaf 22, yn Richland, Washington, Gogledd-Orllewin Unol Daleithiau America, bu farw OWEN LLOYD JONES, plentyn ieuaf y diweddar Evan a Mary Jones, Tanlan, Cribyn, yn 61 oed. Ganed ef yn y Felin, Llysfaen, ond symudodd y teulu i fyw yn y Cribyn pan oedd ef yn lled ifanc. Addysgwyd ef yn Ysgol y Bwrdd, Cribyn o dan yr Athro W. Barrow Griffith, wedi hynny bu yn Ysgol Ramadeg y Parch. D. Evans, Cwmiago, ac am dymor yn Ysgol Ganolradd, Llandysul. Tra bu yng Nghribyn mynychai Ysgol Sul a gwasanaeth y Capel Undodaidd, a bu am dymor yn canu'r American Organ yno. Yn yr ysgol yr oedd yn ddysgwr rhwydd a chanddo dalent at fiwsig. Wedi gadael yr ysgol, bu'n athro cynorthwyol yn gyntaf ym Mrechfa, ond yn fuan aeth i Lundain ; oddiyno croesodd i China, ac o China i Vancouver, yn olaf, sefydlodd yn Seattle. Pan dorrodd y Rhyfel Mawr allan yn 1914, ymunodd a byddin y Canadiaid a daeth yn ôl i Loegr a Ffrainc. Yn yr amser hwnnw ymbriododd a Saesnes o Lundain, ac aeth gydag ef i Seattle. Ganwyd iddynt dair merch, ac y mae'r rheini wedi priodi ac yn byw yn yr Unol Daleithiau. Ni bu ef drosodd yn y wlad hon wedi 1918. Bu farw ar ôl diwrnod o gystudd, o fethiant y galon. Claddwyd ef yn Seattle lle bu'r teulu'n byw hyd yn ddiweddar. Y mae dau frawd, dwy chwaer a llawer o berthynasau iddo yn byw yn y wlad hon.

AWST 16, bu farw Mrs. ANNA JANE JONES, Gwarnant, Cwrtnewydd, yn 54 oed. Y dydd Iau dilynol gosodwyd y rhan farwol ohoni yn 'Erw Duw' yng Nghapel-y-Bryn. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parchedigion Stanley Thomas, E. O. Jenkins, T. Oswald Williams a'r gweinidog. Yr oedd y gynulleidfa luosog yn tystiolaethu i'r siom gyffredinol o'i cholli ac i'r parch mawr a oedd iddi yn yr ardal. Byr y bu ei chystudd, ac ni feddyliodd neb rhyw ddeg diwrnod cyn ei diwedd fod terfyn ei gyrfa mor agos. Talodd ei gweinidog deyrnged i'w chymeriad da. Yr oedd yn fenyw ddiwyd a hawddgar. Yr oedd trefn bob amser yn ei thŷ, a'i phlant i gyd yn tystiol-

aethu eu bod wedi cael hyfforddiant manwl a doeth. Gadawodd briod, pump mab, a dwy ferch mewn galar ar ei hôl. Dymunir iddynt bob cysur yn eu profedigaeth.

Awst 20, bu farw EDWARD JONES, Drefach, ger Llanwnnen, yn 83 oed, ar ôl cystudd maith—dall am bymtheg mlynedd, cyfyngedig i'w wely am dros bum mlynedd. Dan ofal ei nai—Daniel Jones—y bu drwy'r cwbl o'i gystudd. Hanoedd o deulu a fu'n flaenllaw yng Ngalltyplaca ymron o'i gychwyn. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Eglwys Llanwnnen y dydd Mawrth dilynol, y cynhebrwng yn gyfyngedig i'r perthynasau a chymdogion. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. S. E. Bowen, L. Williams a D. Evans ; yn yr Eglwys, gan y Parch. Evan Jenkins, ficer Llanybydder.

Nodion yr Eglwysi.

CYRDDAU'R HYDREF.—Cynhelir yng Nghapel y Graig, Llandysul, ar ddyddiau Mawrth a Mercher, Tachwedd 9 a 10.

CAPEL-Y-CWM.—Fis yn ôl ar nos Sul bu Ysgol Sul Brynteg yn ymweled â Chapel-y-cwm, a chafwyd Cymanfa Bwnc, a'r gweinidog yn holi. Cafwyd cwrdd i'w gofio. Gwnaeth y plant yn eithriadol o dda mewn ateb a chanu. Swynol dros ben oedd eu canu a'r anthem tan arweiniad Mr. David Evans, Maesydderwen, a Miss Rowlands wrth yr offeryn. Cafwyd hefyd adroddiadau o rannau o'r ysgrythurau. Nid oedd y rhai mewn oed ar ôl chwaith, a theimlad pawb oedd mai da oedd bod yno. Y mae gwahoddiad i Ysgol Sul Capel-y-Cwm ymweled â Brynteg yn nes ymlaen.

APWYNTIO.—Llongyfarchion i Mr. Denzil Davies, Tivy Hill, Llanybydder—Ysgrifennydd Cymanfa Ganu Undodiaid Ceredigion—ar ennill ohono y "Diploma in Teaching" yng Ngholeg Shoreditch, Llundain. Y mae wedi ei ddewis yn athro mewn ysgol yn Finchley.

COLEG CAERFYRDDIN.—Bydd Adundeb yr Hen Fyfyrwyr ar ddydd Mawrth, Hydref 5. Cwrdd Busnes yr Adundeb am 2 o'r gloch, dan lywyddiaeth y Parchedig Sam Williams, Glandŵr. Traddodir darlith flynyddol y Dr. Williams' Trust am 3 o'r gloch gan yr Athro E. A. Payne, M.A., B.D., B.Litt., Coleg y Bedyddwyr, Rhydychen. Tê, trwy garedigrwydd y Bwrdd Presbyteraidd, yn y Llyfrgell.

GELLIONNEN A'R GRAIG, TREBANOS.—Bydd y pulpud yn wag ar ddiwedd mis Medi, pryd y bydd ein gweinidog yn ymadael. Am bob manylion ynglŷn â'r weinidogaeth goheber â'r ysgrifennydd, Mr. Philip Powell, Brynheulog, Graig Road, Trebanos, Swansea.

J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.